



Rheoliadau EIA Amaethyddiaeth (Cymru)

Yn meddwl am aredig, ailhau
neu ddraenio tir?

A oes angen penderfyniad sgrinio?

Beth yw diben y Rheoliadau?

Caniatáu newidiadau amaethyddol nad ydynt yn cael effaith ddifrifol ar yr amgylchedd ac, ar yr un pryd, diogelu tir â phwysigrwydd amgylcheddol, hanesyddol neu ddiwylliannol sylweddol.

A yw hyn yn berthnasol i fy nhir?

Os ydych yn bwriadu cynnal prosiect gwella amaethyddol ar **dir lled-naturiol**, rhaid derbyn penderfyniad sgrinio gan Lywodraeth Cymru **cyn** ddechrau.

- Tir lled-naturiol yw tir â llai na 25% o rywogaethau amaethyddol wedi'u gwella (e.e. Rhygwellt Parhaol a/neu Meillion Gwyn). Gall hyn gynnwys amryfal fathau o dir, o ddolydd iseldir i rosydd.
- Rhai enghreifftiau o brosiectau yw trin y tir (aredig, llyfnu, palu), ail-hau, hadu uniongyrchol, gwaith draenio newydd a chlirio prysgwydd.
- Ni fydd angen sgrinio tir amaethyddol sydd eisoes wedi'i wella (e.e. caeau silwair) os yw'n cynnwys mwy na 25% o Rygwellt Parhaol a/neu Meillion Gwyn.

Mae gweithredu'n groes i'r Rheoliadau yn anghyfreithlon, a gallai arwain at eich erlyn, eich gorfodi i adfer y tir i'w gyflwr gwreiddiol a/neu at gosb Trawsgydymffurfio ar daliadau Cynllun y Taliad Sylfaenol (BPS) neu Gynllun Datblygu Gwledig.

Beth sydd angen i mi ei wneud?

Bydd angen i chi gyflwyno ffurflen gais am benderfyniad sgrinio i'ch swyddfa leol Llywodraeth Cymru, ac aros am ymateb cyn dechrau'r gwaith. Mae ffurflenni cais ar gael gan eich swyddfa ranbarthol neu drwy wefan Llywodraeth Cymru.

Gall gymryd hyd at 35 diwrnod am benderfyniad, felly cofiwch gynllunio ymlaen llaw. Ni chodir ffi am y broses sgrinio ac mae penderfyniadau yn ddilys am 3 blynedd.



Sut i gael rhagor o wybodaeth

Cysylltwch â ni, rydyn ni yma i'ch helpu.

I gael mwy o wybodaeth, cysylltwch â Chanolfan Cyswllt i Gwsmeriaid Taliadau Gwledig Cymru ar:

Ffôn: 0300 062 5004

E-bost: EIA.Unit@llyw.cymru

Oriau Agor: Dydd Llun i Ddydd Gwener,
08:30–17:00

Cewch fwy o wybodaeth hefyd ar wefan Llywodraeth Cymru:

www.llyw.cymru/eiaamaeth